

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 22/03/2022

---

### Presenoldeb:

**Aelodau:** Y Cyngorydd Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd), Cyngorydd Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd Rob Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Peter Appleton (Cynrychiolydd Pwyllgor Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw) ac Ian Sadler (Pwyllgor Ras y Tri Copa).

**Swyddogion:** Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Bergitte Evans (Harbwr Feistr Abermaw), Llyr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi), Cyngorydd Brian Woolley (Cyngor Cymuned Arthog), Mr John Johnson (Cymdeithas Bysgota Abermaw a Bae Ceredigion), Cyngorydd Matthew Harris (Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw) ac Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021.

Materion yn codi o'r cofnodion:

- **Nofio Awyr Agored** – Nodwyd bod y Bartneriaeth Awyr Agored wedi awgrymu y dylid cysylltu â chwmni 'Swim Wales' i drafod datblygiadau nofio awyr agored yn yr Harbwr. Eglurwyd y bydd datblygiadau yn cael eu rhannu efo'r Harbwr Feistr neu efo'r Rheolwr Morwrol.

### 4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

#### a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022.

Cyn cychwyn nodwyd bod yr Uwch Swyddog Harbyrau yn anfon ei ddyuniadau gorau i'r Pwyllgor. Gobeithiai fod yn ôl yn ei waith cyn diwedd mis Mai. Dymuna'r Pwyllgor anfon eu ddyuniadau a gwellhad buan at Arthur.

Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

## Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod

Adroddwyd bod y ceisiadau i gyd wedi cael eu hanfon i'r cyn-gwsmeriaid a bod rhai eisoes wedi dychwelyd. Bydd y system Cofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar lein yn cael ei lansio wythnos yma. Nodwyd bod oedi efo'r system o gadarnhau angorfa ar lein yn yr holl harbyrau; ychwanegwyd bod y system yn prysur ddatblygu a bydd yn mynd yn fyw ym mis Mawrth 2023.

## Cod Diogelwch Morwrol Porthladdoedd

Nodwyd bod archwiliadau wedi eu cynnal gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a bod statws cod diogelwch Gwynedd wedi ei gadarnhau. Eglurwyd bod datganiad wedi ei arwyddo gan yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned wedi ei anfon i'r asiantaeth i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r cod. Bydd y cod diogelwch harbyrau yn parhau i gael ei adolygu yn rheolaidd. Pwysleisiwyd bod y tîm harbyrau yn dibynnu ar fewnbnw aelodau'r Pwyllgor gan nodi ei bod yn bwysig dod a materion sy'n ymwneud â diogelwch yr harbwr i sylw Swyddogion.

Holiwyd beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad Cenedlaethol ynglŷn â jet-sgi. Nodwyd bod sylwadau cynhwysfawr wedi eu cyflwyno i'r Llywodraeth. Rhagwelir y bydd ymateb gan y Llywodraeth tua canol y flwyddyn a bydd y sylwadau hyn ar gael i aelodau'r Pwyllgor. Ychwanegwyd bod croeso i aelodau'r Pwyllgor dderbyn copi o ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad os ydynt yn dymuno.

Adroddwyd na fydd digwyddiad y 'Black Rock Blast' yn digwydd eleni ychwaith oherwydd Cofid. Gobeithiwyd ei gynnal y flwyddyn nesaf. Nodwyd bod y digwyddiad hwn wedi rhoi platfform cadarn i dynnu sylw at ymddygiad da yn ymwneud a chychod pŵer a jet-sgis.

Gwnaethpwyd sylw am gwynion gafodd eu derbyn ynglŷn â jet-sgis ble deliodd y Rheolwr Morwrol yn gyflym â'r cwynion, roedd y Cynghorwyr yn hapus iawn efo'r canlyniad. Anogwyd y Cynghorwyr i gysylltu â'r tîm harbyrau cyn gynted ag y bo modd os ydynt yn derbyn cwynion er mwyn gallu ymateb a delio efo'r sefyllfa yn syth. Ychwanegwyd nad oedd nifer fawr o gwynion wedi eu derbyn a bod llawer o'r cwynion yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth o reoliadau. Gobeithiwyd y bydd Heddwys yn mynychu gwahanol harbyrau dros gyfnod yr Haf ac yn mynd allan o gwmpas yr arfordir. Nodwyd bod ail afael yn y cydweithio oedd yn arfer bodoli efo Heddwysion yn gam positif.

## Materion Staffio

Adroddwyd y bydd yr Harbwr Feistr presennol yn gadael ei swydd ar y 1af Ebrill. Bydd angen edrych ar benodi Harbwr Feistr newydd i Abermaw gan gydnabod y bydd yn her ceisio cael presenoldeb yn yr harbwr mor aml dros y Gwanwyn a dechrau tymor yr haf. Cymerwyd y cyfle i ddymuno'n dda i'r Harbwr Feistr yn ei gyrfa gan nodi mai hi yw'r unig Harbwr Feistr sy'n ferch drwy Gymru. Canmolwyd ei gwaith gan nodi ei bod hi o hyd yn broffesiynol a brwdfrydig a dymunwyd pob llwyddiant iddi. Gobeithiwyd y bydd yr hysbyseb swydd allan yn fuan.

Adroddwyd y bydd y cymhorthydd harbwr yn parhau yn ei swydd am y tro ond bob bwriad ganddo i adael ym mis Medi ac y byddai hyn hefyd yn gadael bwlch arall. Ychwanegwyd bod y farchnad gyflogaeth bresennol yn peri pryder gan nad yw pobl yn dueddol o geisio am swyddi. Nodwyd y bydd angen penodi 5 aelod o staff achlysurol i draeth Abermaw dros gyfnod yr Haf a chymerwyd y cyfle i ofyn am ddealltwriaeth aelodau'r Pwyllgor a'u cefnogaeth yn y cyfnod heriol sydd i ddilyn. Efallai bydd angen i'r Rheolwr Morwrol gynorthwyo yn harbwr Porthmadog ac Abermaw dros y cyfnod ble bydd prinder staff i sicrhau bod trefniadau yn ddiogel. Dymuna'r Rheolwr Morwrol

ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am yr holl gefnogaeth sydd wedi ei roi i staff yr harbwr yn Abermaw dros y blynyddoedd.

### **Materion Ariannol**

Rhannwyd gwybodaeth am sefyllfa ariannol a chyllidebau'r harbyrau a'r ddau marina hyd at ddiwedd Chwefror 2022. Soniwyd am y cyllidebau sydd yn bodoli ynghyd a'r targed incwm y gobeithir ei gyrraedd a manylwyd am y gwariant net sef y gost i'r trethdalwyr er mwyn cynnal harbwr Abermaw. Cyfeiriwyd at y tanwariant a'r gôr-wariant mewn gwahanol gategorïau ond yn gyffredinol adroddwyd bod y gyllideb yn edrych yn iach iawn gyda £8,000 ar ôl yn weddill ym mis Mawrth. Bydd angen cymryd i ystyried materion staff a thalu anfonebau ond credwyd bod yr harbwr mewn sefyllfa gyllidol gyfforddus.

### **Ffioedd a Thaliadau**

Nodwyd y bydd ffioedd yn cynyddu 4% sydd yn llai na'r gyfradd chwyddiant. Eglurwyd bod yr argymhelliad hwn wedi ei gymeradwyo gan y swyddogion Cyllid a'r Arweinydd Portffolio ac yn aros am gymeradwyaeth gan Brif Swyddogion y Cyngor. Nodwyd bod gohebu wedi digwydd efo'r cwsmeriaid er mwyn rhoi rhag rybudd o'r cynnydd. Adroddwyd y bydd y ffi ar gyfer cychod ymweld yn cael ei gynyddu 20%. Nid oedd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau.

### **(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.**

Rhedwyd drwy'r adroddiad gan gyfeirio at y stormydd cryf diweddar ac apeliwyd i aelodau'r Pwyllgor gysylltu â'r tîm harbyrau os ydynt yn gweld unrhyw beth o'i le yn yr Harbwr. Soniwyd am yr ymsuddiant yn yr Harbwr ac adroddwyd ar y gwaith sydd yn digwydd yn bresennol efo Ymgynghoriaeth Gwynedd i wneud gwelliannau.

Cyfeiriwyd at y Pontŵn a'r dryswch a chamddealltwriaeth diweddar am ei berchnogaeth. Nodwyd bod Awdurdod yr Harbwr yn awyddus i weithio efo'r Cyngor Tref a'r Clwb Hwyllo ar ddefnydd y Pontŵn; ychwanegwyd bod cryn waith angen ei wneud arno i sicrhau ei ddiogelwch a'i fod yn adnodd pwysig. Nodwyd bod angen edrych ar reolaeth y Pontŵn ac osgoi i'r holl gostau o'i gynnal ddisgyn ar y Cyngor.

Adroddwyd ar y cais sydd wedi ei dderbyn i adeiladu Llithrfa newydd gan Glwb Hwyllo Meirionnydd. Nodwyd nad yw'r gwasanaeth wedi cefnogi'r cais yma ac ni ellir ei ariannu efo refeniw. Bydd y Rheolwr Morwrol yn trafod ymhellach efo'r Clwb Hwyllo.

### **Sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor**

Nodwyd bod Cyngor Tref Abermaw heb gymryd perchnogaeth o'r Pontŵn eto, ni all hyn ddigwydd nes bydd y Cyngor Tref wedi derbyn yr adroddiad ac wedi darganfod os yw'n ymarferol o ran arian i wneud hyn. Nododd y Rheolwr Morwrol y bydd yn rhaid i rywun gymryd cyfrifoldeb ac archwilio'r Pontŵn; am y tro bydd staff harbwr Abermaw yn ei archwilio yn rheolaidd.

Ychwanegwyd gan un o aelodau'r Pwyllgor bod y Pontŵn yn ased a budd i harbwr Abermaw a bod angen sicrhau y bydd yn cael ei warchod. Mynegwyd bod y Clwb Hwyllo efo grant ar gyfer y Pontŵn ond pryderwyd bod amodau i'r grantiau; dymunwyd i'r tîm morwrol edrych mewn i sefyllfa'r grant. Bydd Cyngor Tref Abermaw yn cysylltu efo'r tîm morwrol pan fydd yr adroddiad wedi ei dderbyn ac i drafod pa ddatblygiadau fydd yn deillio o hynny. Nododd aelod y Grŵp Mynediad Traphont Abermaw y byddai'r holl

ddogfennaeth wreiddiol a'r cais gwreiddiol ar gael i bwy bynnag fydd yn cymryd perchnogaeth o'r Pontŵn.

**(c) Astudiaeth Posibilrwydd Carthu**

Nodwyd y dylai bawb fod wedi derbyn copi o'r adroddiad Carthu ac i aelodau gysylltu efo'r Rheolwr Morwrol os ydynt eisiau copi papur o'r adroddiad. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar gyfer y disgwyliadau pe bai cynllun i garthu harbwr Abermaw. Ychwanegwyd bod costau sylweddol iawn i hyn o dros £500,000.

Bydd astudiaeth bellach angen ei wneud i gydymffurfio â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru ac efallai bydd angen trwydded forwrol i wneud y gwaith. Nodwyd y bydd angen edrych ar yr adroddiad yn fanwl a phenderfynu pa lwybr i'w gymryd ac os ydyw yn briodol i edrych i fuddsoddi i gael astudiaethau pellach ynglŷn â charthu harbwr Abermaw a pa fudd fyddai yn dod allan o wneud hyn. Nododd y Rheolwr Morwrol ei fod yn methu cadarnhau y bydd arian ar gael i fuddsoddi gwaith pellach ar hyn o bryd.

**Sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor**

Soniwyd am gynlluniau a phrosiectau gafodd eu creu flynyddoedd yn ôl gan Gyngor dosbarth Meirionnydd a holwyd os ydi'r prosiectau yma ar gael yn unrhyw le. Nodwyd bod prosiectau yn dyddio nôl i 1994 ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a gall y tîm morwrol eu darganfod pe bai angen. Nodwyd mai'r bwriad bryd hynny oedd rhoi marina yn ardal y Baddon drwy garthu ac ychwanegu pontŵn. Oherwydd costau hirdymor penderfynodd y pwyllgor ar y pryd i beidio bwrw mlaen efo'r prosiect yma. Adroddwyd hefyd ar gynllun oedd yn bodoli i greu ynys yng nghanol yr harbwr i geisio cyflymu'r dŵr i garthu'r harbwr yn fwy cyflym ond bod y cynllun hwn wedi disgyn drwodd oherwydd ei fod yn cael effaith amgylcheddol negyddol. Nodwyd bod y cynlluniau hyn ar gael.

Holwyd beth yw'r camau nesaf a syniad o'r gost. Adroddwyd dros y misoedd nesaf bydd y tîm morwrol yn ceisio fframio rhaglen ond nad yw'r gwaith yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth ar hyn o bryd oherwydd bod rhaid canolbwyntio ar y sefyllfa staffio a rhedeg yr harbwr. Nodwyd y byddai costau cychwynnol e.e. costau modelu; bydd y Rheolwr Morwrol yn cynnal trafodaethau anffurfiol efo Cyfoeth Naturiol Cymru i geisio derbyn sylwadau a chynghor ar y ffordd ymlaen.

Ychwanegodd cynrychiolydd y Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion y byddai yn siomedig pe bai dim byd pellach yn digwydd yn dilyn derbyn yr adroddiad. Cadarnhaodd hefyd nad oedd arian pellach ar gael ond bod yr arian oedd wedi ei bennu i garthu harbwr Abermaw dal ar gael sef cyfanswm o £40,000. Nodwyd bod angen ceisio am yr arian yno cyn mis Medi; bydd y gronfa ariannu yn cau bryd hynny felly bydd angen i'r tîm morwrol anfon anfonebau cyn gynted ag y bo modd.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch i gynrychiolydd y Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion am y gwaith a'r gefnogaeth a bydd y Rheolwr Morwrol yn creu'r anfonebau i dargedu'r arian ar gyfer y gwaith. Ychwanegodd ei fod yn deall y rhwystredigaeth ond angen darlun clir o'r sefyllfa. Nodwyd na fydd dim yn digwydd y flwyddyn yma heblaw ymgynghori pellach efo Cyfoeth Naturiol Cymru ac edrych ar dderbyn costau modelu.

Soniwyd am bosibilrwydd i'w ystyried yn y tymor hir o osod peipen carthu o dan y lôn, yn debyg i'r hyn gafodd ei osod ym Mhwllheli sef peipen o'r harbwr i'r Gogledd. Nodwyd bod nifer o bosibiliadau i'w hystyried ond rhaid trafod ymhellach efo Ymgynghoriaeth Gwynedd.

Cyfeiriwyd at y fframwaith adfywio a'r gwaith sy'n digwydd i weld beth yw'r prif faterion sy'n wynebu ardaloedd. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned bod yr adroddiad yn ddefnyddiol ac yn gosod sail o ran be sydd angen ei wneud a'r

## **PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 22/03/2022**

ystyriaethau a chostau o ran carthu. Ychwanegwyd bod angen rheoli disgwyliadau a bod amcan bris ar gyfer y gwaith yn £820,000. Rhaid edrych os oes cyfle i blethu'r cynllun yma efo cynlluniau ehangach yn yr ardal. Nodwyd bod sail i wneud gwaith pellach ond bod pryder o ran y gofyn am adnoddau ar gyfer y cam nesaf; cadarnhawyd y bydd cost o £150,000 i wneud yr astudiaethau pellach.

Cwestiynwyd os oes lle i Lywodraeth Cymru edrych fewn i faterion fel hyn am fod costau cychwynnol o £150,000 yn annheg ar y gymuned ac ar y Cyngor.

I gloi nododd aelod o'r Pwyllgor bod yr adroddiad yn ddefnyddiol ond nad yw'r cynllun mawr yn mynd i helpu yn y tymor byr. Pryderwyd bod angen gweithredu yn fuan er mwyn osgoi colli rhan o'r harbwr a'r traeth. Credwyd bod angen rhoi ystyriaeth lawn i'r uchod gan nad oedd gwario sylweddol wedi bod ar draeth Abermaw ers blynyddoedd.

### **5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

#### **Ramp yn Fairbourne**

Gwnaethpwyd cais gan grŵp cymunedol am arian ar gyfer gosod ramp i alluogi preswylwyr ac ymwelwyr Fairbourne i allu cael mynediad i'r traeth. Nodwyd ei bod yn annheg nad oedd mynediad yn bodoli. Ychwanegwyd bod y Cyngor Cymuned yn ceisio dod o hyd i arian; bydd angen o gwmpas £50,000 i gyllido'r gost.

Nododd y Rheolwr Morwrol ei fod wedi cael trafodaethau efo Clerc Cyngor Cymuned Arthog am y ramp. Adroddodd y bydd angen i unrhyw beth gaiff ei ychwanegu yn Fairbourne fod yn gadarn a pheidio ag yn amharu ar y llif arfordirol a'i bod yn bwysig cael y trefniadau a'r hawliau priodol mewn lle. Nodwyd y byddai angen trwydded forol am ei fod o dan y marc dŵr llanw uchel cymedrig felly mae'n debyg y byddai'r gost yn llawer fwy na £50,000. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio cyfarfod efo Cyfoeth Naturiol Cymru ar ôl y Pasg i drafod eu gofynion ar y safle.

Eglurodd y Rheolwr Morwrol ymhellach ei fod wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb ar gyfer grantiau arfordirol ond nad oes capasiti i'w ddatblygu ar hyn o bryd. Nododd ei fod yn deall y rhwystredigaeth ac yn gobeithio cael trafodaeth bellach efo'r Cyngor Cymuned yn fuan.

#### **Llecynnau yn y compownd a rheoli parcio yn y compownd.**

Cyfeiriwyd ar y pwyntiau oedd wedi eu codi gan gynrychiolydd Cyngor Tref Abermaw mewn e-bost blaenorol. Nododd y Rheolwr Morwrol nad oedd ganddo ateb pendant i'r cwestiynau am yr uchod. Ychwanegodd y bydd oedi ar y cynlluniau oedd mewn lle oherwydd y bydd Harbwr Feistr newydd yn cael ei benodi a bydd angen caniatáu amser iddyn nhw setlo yn y rôl felly nid oes rhaglen bendant ar hyn o bryd.

#### **Cofnodion**

Holiwyd pwy sy'n derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd ac os ydynt yn cael trafodaeth bellach yn unrhyw le. Adroddwyd bod y cofnodion yn cael eu rhannu efo'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r Aelod Cabinet presennol am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd. Ychwanegwyd nad oes trafodaeth bellach yn y Cabinet o ganlyniad i gofnodion y Pwyllgor hwn ond bydd y tîm morwrol yn dod a materion pwysig ger bron y Tîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet pe bai angen.

#### **Ras 10km Abermaw**

Cymerodd gynrychiolydd y Pwyllgor Ras y Tri Copa y cyfle i sôn am y digwyddiad uchod fydd yn cael ei gynnal ar y 9fed o Orffennaf ac am y gwaith parhaus i allu cynnal y digwyddiad. Nodwyd ei fod yn ddigwyddiad mawr i Abermaw gyda gwaith paratoi mewn

## **PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 22/03/2022**

Ile ers blynyddoedd. Ychwanegodd y bydd angen gofyn caniatâd i glirio wal gefn maes parcio'r Clwb Hwyllo gan bod llawer o dywod wedi pentyrru yno. Diolchwyd am waith cynrychiolydd y Pwyllgor Ras y Tri Copa a gobeithiwyd y bydd y diwrnod yn llwyddiant.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i aelodau'r Pwyllgor, staff y Cyngor a staff yr harbwr am eu gwaith a'r gefnogaeth dros y blynyddoedd gan mai hwn fydd ei gyfarfod olaf. Dymunodd yn dda i bawb at y dyfodol.

Dymuna'r Rheolwr Morwrol ddiolch i'r Cadeirydd am ei holl waith, ei gyfeillgarwch a'i broffesiynoldeb gan gydnabod y cyd-weithio gwych sydd wedi cymryd lle dros y blynyddoedd. Ategwyd hyn gan aelodau'r Pwyllgor.

### **6. CYFARFOD NESAF**

8 Tachwedd 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:15pm